**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN.

15 Mai 2025

Annwyl Delyth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â Chytundeb Partneriaeth 100 Mlynedd y DU-Wcráin.

Mae'r Cytundeb, a Datganiad cefnogol, a lofnodwyd ym mis Ionawr 2025, yn darparu fframwaith ar gyfer y meysydd arfaethedig o gydweithrediad rhwng y DU a'r Wcráin. Mae'r Datganiad yn cynnwys gweithgareddau lefel uchel ac ymrwymiadau gwleidyddol ar draws naw 'piler', rhai ohonynt y tu allan i gymhwysedd y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae hwn yn gytundeb dan arweiniad Llywodraeth y DU, sy'n adlewyrchu'r berthynas agosach y mae'r DU wedi'i datblygu gyda'r Wcráin ers dechrau'r goresgyniad di-reswm ac anghyfreithlon gan Rwsia.

Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar ddrafft bron yn derfynol o'r Datganiad a chafwyd diwygiadau i sicrhau y gall Gymru gyfrannu at eu cyflawni ar draws meysydd datganoledig, lle mae amser ac adnoddau yn caniatáu. Nid wyf yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi dyrannu cyllid tuag at gyflawni'r Datganiad, y tu allan i'r ymrwymiad a enwir ar gymorth milwrol. Felly, byddwn yn disgwyl i unrhyw gyfranogiad arfaethedig gan Lywodraeth Cymru mewn prosiectau cydweithredu fynd drwy'r Ysgrifenyddion Cabinet a'r Gweinidogion perthnasol i'w cymeradwyo.

Mae swyddogion yn mynychu sesiynau chwarterol ar yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cytundeb partneriaeth ac mae Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU wedi sefydlu Grŵp Cyswllt Partneriaeth Awdurdodau Lleol rhwng y DU a'r Wcráin yn ddiweddar, gyda CLlLC yn aelod sy'n cynrychioli awdurdodau lleol Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os yw sefydliadau neu bartneriaid cyflenwi Cymru eisiau bod yn rhan o brosiectau cydweithredu o dan y Datganiad, gallant fynd trwy adran berthnasol Llywodraeth y DU, a gall swyddogion helpu gyda chyfeirio os oes angen.

Mae safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ar Wcráin yn glir. Cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ym mis Mawrth a oedd yn ailddatgan ein cefnogaeth ddiwyro i'r Wcráin a'i phobl. Rwy'n falch ein bod wedi parhau i adeiladu cysylltiadau â chydweithwyr a phartneriaid yn y wlad trwy ein gweithgaredd ymgysylltu rhyngwladol. Ers dechrau'r gwrthdaro, cynhaliodd Academi Heddwch a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru drafodaeth a sicrhau bod adnoddau ar gael i ddeall a thrafod y gwrthdaro. Hwylusodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a British Council Cymru sesiwn ar-lein y llynedd i feithrin cyfnewidiadau diwylliannol mewn partneriaeth â Sefydliad Diwylliannol Wcráin a Sefydliad Wcráin yn dilyn dirprwyaeth a fu ar ymweliad â Chymru i archwilio cysylltiadau.

Yn gywir



**Eluned Morgan**